

Gwybodaeth thema i rieni Bl.3 a 4

I'r dyddiadur.....:-

Noson Rieni - Hydref 15^{fed} 3.30 – 6yh

Ffair Nadolig – Tachwedd 26^{ain} 5.30yh – 7.30yh

Sioe Nadolig Bl.3 a 4 – Rhagfyr 12^{fed} 1.15yp a 6yh

Panto Nadolig, Llandudno – Rhagfyr 20^{fed} (bore)

IAITH

Drwy ddefnyddio addasiad Emily Huws o lyfr Tony Bradman 'Mistar Ffrancenstein, a 'Badger Girl', Andrew Davies; byddwn yn canolbwyntio ar y ffurfiau ysgrifennu canlynol:

- Portread
- Dyddiadur
- Llythyr
- Ymson

DARLEN

Bydd cyfleoedd darllen unigol, grŵp, gwrando ar storïau ar CD. Mae hyn yn targedu amryw o sgiliau darllen ac yn gwella eu dealltwriaeth o destun.

Ein bwriad yw meithrin a chynnal diddordeb y plant mewn darllen a hyrwyddo eu datblygiad fel darllenwyr annibynnol.

MATHEMATEG

Ceir gweithgareddau ymarferol ac ysgrifenedig ble byddwn yn ymarfer ein sgiliau gwaith rhif-gwerth lle, adio, tynnu, lluosio, rhannu, amser, hyd, data, siapiau 2D a 3D, arian a ffracsiynau.

****Mae'n bwysig ymarfer y tablau.****

GWYDDONIAETH

Yn ystod y tymor byddwn yn:-

- Edrych ar sgerbwd y corff, enwau a swyddogaeth prif organau'r corff.
- Edrych ar y dannedd a phwysigrwydd cadw ein dannedd yn lân.
- Edrych ar wahanol ddefnyddiau a'u priodweddau
- Edrych ar effaith Grym a Magnetau
- Cynefinoedd
- Bwyta'n iach

ADDYSG GORFFOROL

Sgiliau pêl – Gemau goresgyn a Gymnasteg.

Gofynnwn i bob plentyn ddod â dillad ac esgidiau addas ar gyfer y wers.

CELF

Astudio gwaith yr alunwyr o Gymru.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Dynlunio brechdan iach.

GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref ar **ddydd Gwener**, a dylid ymdrechu i'w ddychwelyd erbyn y **dydd Mercher canlynol**.

TECHNOLEG

GWYBODAETH

Defnyddio amryw o raglenni i ddiwallu gofynion y Fframwaith Ddigidol.

YMWELIADAU

Byddwn yn ymweld â'r dref yn rhan o'n gwaith Daearyddiaeth a Hanes.

Sut allwch chi helpu eich plentyn?

• Darllen a deall ystod o ffynonellau gwahanol a diddorol, e.e. llyfrau amrywiol, arwyddion ffordd, papurau newydd, cylchgronau a gwefannau addas.

• Ymarfer tablau lluosio, gweithio ar strategaethau adio a tynnu yn y pen, trin arian mewn bywyd bob dydd ac atgyfnerthu gwybodaeth o amser drwy gyfeirio at gloiciau digidol ac analog yn y byd o'n cwmpas.

HANES

Sut oedd bywyd yn nhref Llangefni ganrif yn ôl?

DAEARYDDIAETH

Astudio tref Llangefni, y siopau a'r ardal

ADDYSG GREFYDDOL

Gwrthiau Iesu
Sul y Cofio
Nadolig

CERDDORIAETH

Dysgu caneuon tymhorol – Diolchgarwch a'r Nadolig.
Gwerthfawrogi Cerddoriaeth gan gynnwys Carnifal yr Anifeiliaid – Saint Saëns

